



Lwfans Cyfle Dysgu Ymarfer

Cynllun teithio ar gyfer deiliaid bwrsariaeth a ariennir gan Ofal Cymdeithasol Cymru

Cynnwys:

1. Cyflwyniad	1
2. Pwy sy'n gymwys i hawlio'r lwfans?	2
3. Faint yw'r lwfans?	2
4. Beth sy'n wariant dysgu ymarfer cymwys?	3
5. Cyfraddau Milltiroedd	3
6. Llety	4
7. Treuliau cymwys eraill	5
8. Ymrwymiad Yswiriant	5
9. Amodau talu	6
10. Sut i wneud cais am y lwfans ychwanegol	7
11. Sut i sicrhau bod Gofal Cymdeithasol Cymru wedi derbyn y ffurflenni	8

1. Cyflwyniad

- 1.1 Mae hyfforddiant cymhwyso mewn gwaith cymdeithasol yn rhoi pwyslais mawr ar allu myfyrwyr i ddatblygu sgiliau, defnyddio gwybodaeth a chael eu cymhwysedd wedi'i asesu o fewn cyfleoedd dysgu ymarfer priodol. I wneud y gorau o'r cyfleoedd dysgu ymarfer sydd ar gael, bydd angen i fyfyrwyr fynd i leoliadau ledled Cymru a bydd angen iddynt ymgymryd yn aml â theithio ychwanegol fel rhan o'u profiad dysgu ymarfer.
- 1.2 Mae cyfle dysgu ymarfer (CDY) yn cyfeirio at ddiwrnodau a dreulir mewn hyfforddiant ymarfer ym maes gwaith cymdeithasol, fel sy'n ofynnol gan Ofal Cymdeithasol Cymru yn ei "Rheolau Cymeradwyo ac Ymweld â Chyrsiau Gradd mewn Gwaith Cymdeithasol

(Cymru) 2018” neu gan y Gofynion ar gyfer y Cymhwyster Gwaith Cymdeithasol a wneir gan Gyngor Rheoleiddio arall yn y DU.

- 1.3 Cyflwynwyd y Lwfans Cyfle Dysgu Ymarfer (LCDY) fel cyfraniad tuag at y treuliau ar gyfer lleoliadau y bydd myfyrwyr yn eu talu fel rhan annatod o'u hyfforddiant gwaith cymdeithasol.

2. Pwy sy'n gymwys i hawlio'r lwfans?

- 2.1 Mae'r LCDY ar gael i bob myfyriwr sydd wedi cael ei asesu i fod yn gymwys i gael bwrsariaeth Gofal Cymdeithasol Cymru.
- 2.2 Ni fydd myfyrwyr yn derbyn y lwfans blynyddol am unrhyw flwyddyn pan na fyddant yn manteisio ar CDY.

3. Faint yw'r lwfans?

- 3.1 Bydd myfyrwyr cymwys sy'n dilyn cwrs gradd israddedig neu gwrs gradd ôl-raddedig yn derbyn LCDY sy'n gyfartal a £7.50 y dydd fel cyfraniad tuag at gostau CDY. Bydd y LCDY yn cael ei dalu cyn byddwch yn cychwyn eich CDY a bydd y swm y cewch yn dibynnu ar sawl diwrnod bydd eich CDY yn parhau:

	Swm LCDY				
Dyddiau	20	30	80	90	100
Swm	£150	£225	£600	£675	£750

- 3.2 Bydd myfyrwyr a fydd wedi gwario eu LCDY cychwynnol mewn unrhyw flwyddyn ar wariant cymwys sy'n gysylltiedig â'u cyfle dysgu ymarfer yn gymwys i hawlio ad-daliad am gostau dros y LCDY cychwynnol hyd at yr uchafswm dyddiol.
- 3.3 Er mwyn bod yn gymwys i gael yr ad-daliad hwn rhaid i'r myfyrwyr ddangos i Ofal Cymdeithasol Cymru bod y LCDY cychwynnol wedi cael ei wario ar wariant dysgu ymarfer dilys.

4. Beth sy'n wariant dysgu ymarfer cymwys?

4.1 Mae'r lwfans yn cwmpasu:

- Costau teithio yn sgil teithio yn ôl ac ymlaen o gartref/llety'r myfyrwyr i'w CDY. Byddai hyn fel arfer yn cynnwys un ymweliad cyn y CDY ac un ymweliad ar ôl y CDY am bob CDY.
- Costau teithio yn sgil cyfle dysgu ymarfer e.e. ymweliad â defnyddwyr gwasanaethau yn eu cartref.
- Costau llety a delir yn benodol ar gyfer ymgymryd â CDY e.e. costau Gwely a Brecwast neu rentu llety.

4.2 Gallwch hawlio y gwariant yma drwy lenwi i fewn, o ddiwrnod cyntaf eich CDY, y dalen Gwariant Dyddiol yn y ffurflen Hawlio Costau Teithio.

4.3 Gall myfyrwyr hawlio hyd at uchafswm o £75 y dydd am drafnidiaeth breifat, parcio a costau llety a dynnir mewn cysylltiad â'r CDY yn unig.

4.4 Ni fydd y lwfans yn cwmpasu:

- Teithio i'r brifysgol/coleg;
- Diwrnodau galw yn ôl;
- Yswirio, trwsio neu brynu car, profion MOT, aelodaeth RAC/AA ac ati;
- Rhentu a llogi car;
- Teithio mewn awyren;
- Costau tacsî;
- Costau ffôn;
- Costau cyrsiau hyfforddiant;
- Chostau bwyd a diod; ac
- Unrhyw ddyddiau CDY ychwanegol, pe bai angen estyniad ar y lleoliad. Bydd unrhyw geisiadau yn cael eu hystyried ar sail unigol at ddisgresiwn Gofal Cymdeithasol Cymru. Bydd angen cefnogaeth eich Prifysgol a'r darparwr lleoliad cyn gallwn ystyried y cais.

5. Cyfraddau Milltiroedd

5.1 Telir costau am ddefnyddio cludiant preifat yn ôl y cyfraddau canlynol:

Ceir:	45c y filltir
Beiciau modur:	24c y filltir
Beiciau:	20c y filltir

6. Llety

- 6.1 Os bydd lleoliad y myfyrwyr mewn man sy'n rhy bell o'u cartrefi neu eu cyfeiriad yn ystod y tymor i wneud y daith yn ddichonadwy neu'n economaidd, gellir hawlio am gostau llety a dalwyd yn benodol er mwyn ymgymryd â CDY e.e. costau Gwely a Brecwast neu gost rhentu llety dros dro.
- 6.2 Argymhellir llety gwely a brecwast ar gyfer trefniadau tymor byr yn unig, lle nad yw rhentu llety yn ddichonadwy o bosibl. Ar gyfer Cyfleoedd Dysgu Ymarfer hirach rhwng 80 a 100 diwrnod, disgwylir i fyfyrwyr aros mewn llety ar rent a rhannu gyda myfyrwyr eraill a ariennir gan fwrsariaeth lle bo'n bosibl.
- 6.3 Ni wneir taliad mewn perthynas ag unrhyw gais am gostau llety oni bai eu bod wedi derbyn cytundeb ysgrifenedig Gofal Cymdeithasol Cymru o flaen llaw. Felly, rhaid i fyfyrwyr ofyn am gydsyniad Gofal Cymdeithasol Cymru cyn arwyddo unrhyw gytundebau rhentu â darpar landlord/asiantaeth gosod tai neu aros mewn Gwely a Brecwast.
- 6.4 Yn achos ceisiadau am gostau llety, ni fydd Gofal Cymdeithasol Cymru yn cytuno i ystyried ceisiadau oni bai bod y llety'n bodloni meini prawf Gofal Cymdeithasol Cymru. Mae'n rhaid i fyfyrwyr gwblhau'r ffurflen gais ar-lein Cais Am Lety (sydd ar gael trwy gyfrif GCCarlein y myfyrwyr) a chyflwyno i'r Tîm Ariannu Myfyrwyr a Grantiau i sefydlu a yw preswylfa bosibl yn bodloni ein meini prawf cymhwyster.
- 6.5 Bydd yn cymryd hyd at bum diwrnod gwaith i Ofal Cymdeithasol Cymru i gydnabod geisiadau am gymeradwyaeth, a byddant yn cysylltu a chi i ofyn am wybodaeth ychwanegol os oes angen, yn dibynnu ar ba wybodaeth a gyflwynwyd gennych eisoes.
- 6.6 Ni ddylech arwyddo cytundeb rhentu nes i chi dderbyn cymeradwyaeth ysgrifenedig. Os byddwch yn arwyddo heb gymeradwyaeth ysgrifenedig, mae Gofal Cymdeithasol Cymru yn cadw'r hawl i wrthod ad-dalu unrhyw geisiadau am gostau llety.
- 6.7 Wrth hawlio costau llety bydd angen i chi ddarparu Cytundeb Rhentu/Tenantiaeth dilys sy'n dangos yn glir faint fyddwch chi'n ei dalu bob wythnos/mis. Rhaid darparu derbynebaw gyda phob cais am ad-daliad o'ch costau llety. Ni fydd Gofal Cymdeithasol Cymru yn ad-dalu unrhyw gostau llety oni bai eich bod yn darparu'r cytundeb Rhentu/Tenantiaeth a derbynebaw.
- 6.8 Cyfrifoldeb y myfyriwr yw sicrhau neu drafod telerau addas ar gyfer unrhyw gytundebau felly. Cyfrifoldeb y myfyriwr yn llwyr yw unrhyw gytundeb rhentu neu denantiaeth y mae'n cytuno iddi, a dylid ei hanrhydeddu felly. Ni fydd Gofal Cymdeithasol Cymru yn cymryd rhan mewn unrhyw drafodaethau neu ddadleuon rhwng tenant a landlord ac ni fydd yn atebol am unrhyw gostau yn dilyn dod ag unrhyw gytundeb i ben yn gynnar.

7. Treuliau cymwys eraill

7.1 Gellir gwneud cais am y canlynol hefyd:

- Gellir gwneud cais am ffioedd parcio o fewn yr uchafswm teithio dyddiol o £75, ar gyfer teithio i'r CDY ac yn ôl ac wrth ymgymryd â gwaith sy'n uniongyrchol gysylltiedig â'r cyfle dysgu ymarfer e.e. ymweliadau â chartrefi defnyddwyr gwasanaeth / cynhalwyr.
- Ad-delir costau tollau, twneli, pontydd a thagfeydd a delir yn ystod y CDY yn ogystal â'r uchafswm teithio dyddiol o £75.
- Bydd costau trafndiaeth gyhoeddus yn cael eu had-dalu yn ychwanegol i'r uchafswm teithio dyddiol o £75. Bydd hawlio am drafnidiaeth gyhoeddus yn:
 - Ad-dalu cost wirioneddol y daith fel y nodir ar y tocyn;
 - Ei gwneud yn ofynnol i deithio ar y trên yn ôl y pris isaf sydd ar gael, gan ddefnyddio tocynnau dwyffordd a chyfraddau safonol.
- Gall myfyrwyr sy'n teithio mewn cerbyd preifat hawlio taliad cludo teithwyr o 5c y filltir y teithiwr am bob myfyriwr y cludant hyd at ddau fyfyriwr sy'n cael cymorth bwrsariaeth Gofal Cymdeithasol Cymru. Rhaid i'r ffurflenni cais nodi enwau'r teithwyr a'u rhif cyfeirnod Gofal Cymdeithasol Cymru. Nodwch mai dim ond y gyrrwr a gaiff wneud cais pan fo myfyrwyr yn teithio gyda'i gilydd.

7.2 BYDD RHAID tynnu llun neu sganio derbynebaw/tocynnau a'u e-bostio at y Tîm Ariannu Myfyrwyr a Grantiau, ar gyfer pob eitem gymwys o dreuliau y gwneir cais amdani ar y ffurflen Hawlio Costau Teithio. NI ALL Gofal Cymdeithasol Cymru AD-DALU unrhyw gais am yr uchod oni chaiff y derbynebaw neu'r tocynnau cyfatebol eu derbyn gan y Tîm Ariannu Myfyrwyr a Grantiau.

8. Datganiad Yswiriant

- 8.1 Rhaid i bob myfyriwr sy'n derbyn arian bwrsariaeth fod wedi cwblhau adran 9 o'r ffurflen gais am Fwrsariaeth Gwaith Cymdeithasol neu adran 7 o'r ffurflen Adnewyddu Bwrsariaeth, a elwir yn 'Datganiad Yswiriant'. Rhaid i fyfyrwyr lenwi'r datganiad hwn pa un a yw'n fwriad ganddynt ddefnyddio cerbyd preifat at ddibenion y cyfle dysgu ymarfer ai peidio.
- 8.2 Un o amodau talu ceisiadau am drafnidiaeth breifat yw bod gan fyfyrwyr yswiriant ar gyfer y risgiau canlynol:

- Teithio yn ôl ac ymlaen o gyfeiriad cartref parhaol/cyfeiriad yn ystod y tymor/cyfeiriad llety CDY a chyfeiriad y CDY, i gynnwys y canlynol:
 - anaf corfforol, neu farwolaeth, trydydd parti;
 - anaf corfforol, neu farwolaeth, unrhyw deithwyr; a
 - difrod i eiddo trydydd parti.
- Os caiff y cerbyd ei ddefnyddio yn ystod y cyfle dysgu ymarfer, rhaid i'r yswiriant gynnwys y canlynol hefyd:
 - niwed i'r cerbyd, neu'r cerbyd yn cael ei ddwyn; a
 - chymeradwyaeth bod y polisi'n cynnwys defnyddio'r cerbyd at ddibenion busnes gan y myfyriwr yn bersonol.

8.3 Cyfrifoldeb y myfyriwr yw sicrhau bod ei bolisi yswiriant yn cynnwys y risgiau hyn a'i fod wedi ei gymeradwyo'n briodol ar gyfer defnyddio'r cerbyd at ddefnydd hyfforddiant ac nad yw derbyn lwfans milltiroedd yn cael ei ystyried fel rheswm i'w logi nac fel gwobr. Ni fydd Gofal Cymdeithasol Cymru yn talu unrhyw gostau yswiriant ychwanegol at ddefnydd busnes.

8.4 Ni fydd Gofal Cymdeithasol Cymru yn derbyn cyfrifoldeb am unrhyw ddamwain, niwed, anaf na marwolaeth a fydd yn deillio o ddefnyddio cerbyd myfyriwr. Dim ond os caiff amodau'r yswiriant eu bodloni y caiff y lwfans milltiroedd ei dalu. Er mai cyfrifoldeb y myfyriwr yw sicrhau bod eu polisi'n bodloni'r gofynion, mae Gofal Cymdeithasol Cymru yn cadw'r hawl i archwilio'r polisi ar unrhyw adeg.

9. Amodau talu

9.1 Caiff ceisiadau am dreuliau sy'n uwch na'r LCDY cychwynnol eu talu'n fisol fel arfer, mewn ôl-daliadau.

9.2 Ni ellir talu ceisiadau am dreuliau ymlaen llaw.

9.3 Rhaid i oruchwyliwr y CDY ddilysu pob cais am dreuliau. Goruchwyliwr eich Cyfle Dysgu Ymarfer fydd eich addysgwr ymarfer ar y safle neu uwch aelod o staff sydd â chyfrifoldeb dros oruchwylio eich gwaith ar Gyfle Dysgu Ymarfer.

9.4 Caiff ceisiadau am dreuliau eu prosesu yn ôl y dyddiad y cânt eu cyflwyno neu eu hail-gyflwyno i Ofal Cymdeithasol Cymru.

- 9.5 Bydd Gofal Cymdeithasol Cymru ond yn ad-dalu costau teithio lleoliadau fyfyrwr cymwys os yw'r ffurflen hawlio costau teithio yn cael ei chyflwyno o fewn y flwyddyn academaidd gyfredol, h.y. ar neu cyn Awst 31. Bydd ffurflenni hawlio costau teithio a gyflwynwyd yn y flwyddyn academaidd ddilynol ar ôl i'r lleoliad ddigwydd (rhwng 1 Medi a 31 Mawrth) yn cael eu prosesu yn y ôl disgrisiwn Gofal Cymdeithasol Cymru a dim ond mewn amgylchiadau eithriadol yn unig.
- 9.6 Gall archwiliadau o gostau teithio yn ôl milltiroedd gael eu cynnal ar gerbydau preifat drwy ddefnyddio proses archwilio milltiroedd.
- 9.7 Gall archwiliadau gael eu cynnal i wirio bod eich costau llety'n bodloni'r meini prawf a gytunwyd ar y cychwyn â'r Tîm Ariannu Myfyrwyr a Grantiau yn yr ohebiaeth i Gymeradwyo Cais Llety.
- 9.8 Bydd Gofal Cymdeithasol Cymru yn archwilio, a lle y bo'n briodol, yn diwygio'r cyfraddau milltiroedd, y symiau a gofnodir, nifer y milltiroedd ac unrhyw costau ychwanegol a gwneir cais amdanynt.
- 9.9 Mewn amgylchiadau pan fydd gordaliad wedi cael ei wneud, defnyddir ceisiadau am dreuliau yn y dyfodol i ostwng/ad-dalu gordaliadau o'r fath.

10. Sut i wneud cais am y lwfans ychwanegol

- 10.1 Bydd angen i fyfyrwr sydd wedi cael bwrsariaeth Gofal Cymdeithasol Cymru gwblhau Ffurflen Hawlio Costau Teithio i ddangos sut maen't wedi gwario eu LCDY cychwynnol ac hefyd i hawlio ad-daliadau o wariant sy'n fwy na'r LCDY cychwynnol.
- 10.2 Bydd angen i'r myfyrwr ddilyn yr un broses i ddangos sut maent wedi gwario'r LCDY cychwynnol ar gyfer pob CDY cyn gwneud cais am dreuliau ychwanegol.
- 10.3 Atgoffir myfyrwr am eu cyfrifoldeb i ddarparu gwybodaeth gywir a gonest i Ofal Cymdeithasol Cymru. Bydd Gofal Cymdeithasol Cymru yn cymryd y camau angenrheidiol i adfer unrhyw arian a delir i fyfyrwr sy'n cyflwyno ceisiadau ffug neu anghywir. Hefyd atgoffir myfyrwr fod ganddynt gyfrifoldeb proffesiynol i ymddwyn yn onest a gallai ceisiadau ffug neu anghywir effeithio ar eu cofrestriad proffesiynol.
- 10.4 Mae rhaid i fyfyrwr e-bostio eu ffurflenni Hawlio Costau Teithio cwblhedig i'w goruchwyliwr CDY a fydd yn gwirio'r ffurflen am gywirdeb cyn eu hanfon ymlaen drwy e-bost i'r Tîm Ariannu Myfyrwyr a Grantiau ar gyfeiriad e-bost ariannumyfywrgrantiu@gofalcymdeithasol.cymru
- 10.5 Dylid tynnu llun neu sganio derbynebaw/tocynnau a'u e-bostio at ariannumyfywrgrantiu@gofalcymdeithasol.cymru
- 10.6 Ni ddylai goruchwyliwr CDY sy'n dilysu ffurflenni eu dychwelyd i'r myfyrwr i'w hanfon ymlaen o dan unrhyw amgylchiadau.

10.7 Bydd ceisiadau'n cael eu hasesu yn ôl dyddiad eu derbyn gan y Tîm Ariannu Myfyrwyr a Grantiau a bydd yn cymryd hyd at 20 diwrnod gweithio i Ofal Cymdeithasol Cymru eu prosesu.

11. Sut i sicrhau bod Gofal Cymdeithasol Cymru wedi derbyn y ffurflenni

11.1 Os byddwch yn cynnwys eich cyfeiriad e-bost ar glawr blaen y Ffurflen Hawlio Costau Teithio, byddwn yn e-bostio cadarnhad i chi o dderbyn y ffurflen, unwaith y byddwn yn ei derbyn.

Os oes gennych unrhyw ymholiadau ynglŷn â'r Cynllun Teithio, bydd croeso i chi gysylltu â'r Tîm Ariannu Myfyrwyr a Grantiau yn uniongyrchol ar:

Ffôn: 0300 303 3444

E-bost: ariannumyfirwyrgrantiau@gofalcymdeithasol.cymru